



OFFICIAL

**Cymeradwyaeth ONR o dan LC23(5) – Cymeradwyaeth o Newid i Dabl 1 o Reolau  
Gweithredu Wylfa**

**Cell Storio Sych Eilaidd 4 – Cynnig ar gyfer newid Rheol Gweithredu 4.5 a  
chyfarwyddiadau gweithredu ac atodlen gynnal a chadw cysylltiedig**

Adroddiad Asesiad Prosiect ONR-DFW-PAR-15-015

9 Tachwedd 2015

OFFICIAL

## OFFICIAL

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os dymunwch aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [www.onr.org.uk/copyright](http://www.onr.org.uk/copyright) fam fanylion.

Cyhoeddwyd 02/16

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.*

OFFICIAL

## OFFICIAL

### CRYNODEB GWEITHREDOL

#### Cell Storio Sych Eilaidd 4 - Cynnig ar gyfer newid Rheol Gweithredu 4.5 a chyfarwyddiadau gweithredu ac atodlen gynnal a chadw cysylltiedig

Mae'r adroddiad asesiad prosiect hwn yn cyflwyno canfyddiadau asesiad ONR o gais Magnox Cyf. am Gymeradwyaeth o newid i Reolau Gweithredu gorsaf Wylfa.

#### Cais am Ganiatâd

Mae Magnox Cyfyngedig, y trwyddedai ar gyfer safle niwclear Wylfa, wedi cynnig gwneud newid i Reolau Gweithredu'r orsaf trwy adolygu Rheol Gweithredu 4.5 (OR4.5) ar gyfer Cell Storio Sych Eilaidd 4 (DSC4). Mae Magnox Cyf. wedi gofyn am 'Gymeradwyaeth' ONR ar gyfer y newid hwn o dan Amod Trwydded (LC) 23(5) o'r rhif trwydded safle niwclear 58A.

#### Cefndir

Cynlluniwyd DSC4 ar gyfer swmp-storio bron i 29000 o elfennau tanwydd arbelydredig mewn amgylchedd awyr a reolir yn weithredol. Darperir y gofynion gweithredol ar gyfer cynnal a chadw'r amgylchedd yn Rheol Gweithredu 4.5 (OR4.5) a Chyfarwyddiadau Gweithredu cysylltiedig yr Orsaf gyfeirio. Mae'r trwyddedai wedi datgan bod DSC4 yn rhydd rhag tanwydd a'i bod yn cynnwys dim ond maint bach o ILW. Mae'r trwyddedai'n ystyried, yn y cyflwr hwn nad yw'r amodau a therfynau llym a bennir yn OR4.5 yn ofynnol bellach i gynnal diogelwch niwclear a gellir eu tynnu i ffwrdd, a'u disodli â threfniadau eraill priodol sydd wedi'u seilio ar gyfarwyddiadau gweithredu rheolaidd yr orsaf.

Mae cyflwyniad y Trwyddedai'n cyflwyno dadleuon a thystiolaeth y gall OR4.5 gael ei adolygu heb niwed i ddiogelwch niwclear a bod y risg o ryddhad radiolegol o DSC4 wedi'i leihau'n briodol.

#### Gwaith asesu ac arolygu a wnaed gan ONR tra'n ystyried y cais hwn

Mae ONR wedi cynnal rhaglen o waith sy'n cynnwys asesiad o gyflwyniad y Trwyddedai gan arbenigwyr cemeg, amddiffyniad radiolegol a dadansoddi diffygion, ymgysylltu â'r Trwyddedai ac arolygu newidiadau arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â threfniadau'r Trwyddedai a safonau rheoleiddiol a disgwyliadau.

Ar gyfer yr asesiad hwn, roedd y ffocws ar ennill sicrwydd ynghylch gwirionedd y datganiad bod DSC4 yn rhydd rhag tanwydd sy'n sylfaenol i'r cynnig, ac ynghylch digonolrwydd y'r amodau arfaethedig ar gyfer storio'r ILW sy'n weddill.

#### Materion yn codi o waith ONR

Nid oes problemau yn dal heb eu datrys o waith asesu ac arolygu ONR.

#### Casgliadau

Mae ONR yn fodlon ar yr honiadau, dadleuon a thystiolaeth a ddarperir ym mhapur y Pwyllgor Diogelwch Niwclear (NSC) "Cynigion ar gyfer dileu rheol weithredu 4.5, cyfarwyddiadau gweithredu cysylltiedig yr orsaf gyfeirio (RSOIs) a gweithgareddau'r atodlen gynnal a chadw (MS) ar gyfer cell storio sych (SDSC) 4" a thystiolaeth arall a ddarparwyd trwy ymgysylltu â'r Trwyddedai.

#### Argymhelliad

Mae adroddiad asesiad y prosiect yn argymhell:

- Mae'r Arolygydd Goruchwylio ar gyfer is-raglen safleoedd Magnox ac Adfer yn derbyn y dyfarniadau technegol a rheoleiddiol yn yr adroddiad;
- Mae'r Arolygydd Goruchwylio ar gyfer is-raglen safleoedd Magnox ac Adfer yn cymeradwyo'r adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi ar ôl ei olygu fel sy'n briodol; a

OFFICIAL

## OFFICIAL

- Mae'r Prif Arolygydd Niwclear yn rhoi'r Gymeradwyaeth i ddiwygio Rheolau Gweithredu Gorsaf Wylfa trwy newid Rheol Weithredu 4.5 ac adolygu dogfennaeth gysylltiedig fel a ddangosir.

OFFICIAL

## OFFICIAL

### RHESTR O FYRFODDAU

ALARP	Cyn ised â sy'n rhesymol ymarferol
DSC4	Cell Storio Sych Eilaidd 4
EPR2010	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, 2010
HOW2	System Reoli Busnes (Swyddfa dros Reoli Niwclear)
INSA	Asesiad Annibynnol o Ddiogelwch Niwclear
LC	Amod Trwydded
LI	Offeryn Trwyddedu
NMS	Atodlen Gynnal a Chadw Niwclear
NSC	Pwyllgor Diogelwch Niwclear
ONR	Swyddfa dros Reoli Niwclear
OR	Rheol Gweithredu
PGDSC	Achos Diogelwch Datlenwi Ôl-gynhyrchu
PSR	Adolygiad Diogelwch Cyfnodol
RSOI	Cyfarwyddyd Gweithredu yr Orsaf Gyfeirio
SAP	Egwyddor(ion) yr Asesiad Diogelwch
SOI	Cyfarwyddyd Gweithredu yr Orsaf
TAG	Canllaw i'r Asesiad Technegol (ONR)

OFFICIAL

## OFFICIAL

### TABL CYNNWYS

1	CAIS AM GANIATÂD.....	7
2	CEFNDIR.....	7
3	GWAITH ASESU AC AROLYGU A WNAED GAN ONR TRA'N YSTYRIED Y CAIS HWN .....	<b>ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.</b>
4	MATERION YN CODI O WAITH ONR .....	9
5	CASGLIADAU.....	9
6	ARGYMHELLION .....	9
7	CYFEIRIADAU.....	11

OFFICIAL

## OFFICIAL

### 1 CAIS AM GANIATÂD

1. Mae deiliad trwydded safle niwclear Wylfa, sef Magnox Cyf. (MxL) wedi cynnig gwneud newid i Reolau Gweithredu'r orsaf trwy ddisodli'r Rheol Gweithredu cyfredol 4.5 (OR4.5) ar gyfer cell storio sych eilaidd 4 (DSC4) â chofnod di-rym, â'r label "Dim Cofnod" (y cyfeirir ato fel "dilead o'r rheol gweithredu" yng nghyflwyniad y Trwyddedai ac ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn ar gyfer cysondeb â'r derminoleg a ddefnyddir trwy gydol y ddogennaeth a gyflwynir) (Cyf.1). Mae'r cynnig yn dilyn datganiad bod DSC4 yn rhydd rhag tanwydd erbyn hyn a felly nad yw'r amodau a therfynau a bennir gan OR4.5 i gynnal tanwydd niwclear yn ofynnol bellach i gynnal diogelwch niwclear.
2. Mae'r Trwyddedai wedi gofyn am 'Gymeradwyaeth' ONR ar gyfer y newid hwn o dan Amod Trwydded (LC) 23(5) rhif trwydded 58A (Cyf. 1) y safle niwclear.

### 2 CEFNDIR

3. Cynlluniwyd DSC4 ar gyfer swmp-storio hyd at 28992 o elfennau tanwydd arbelydredig mewn amgylchedd awyr a reolir yn weithredol. Cafodd yr elfennau tanwydd eu storio'n unigol mewn tiwbiau dur meddal â phennau agored, wedi'u halinio'n fertigol, wedi'u trefnu'n 6 rhes o 25 sgip, bob sgip yn cynnwys matrices o diwbiau 16 gan 12. Roedd mecanwaith troli o fewn DSC4 yn caniatáu i sgiplau gael eu symud ar gyfer gweithgareddau megis gollwng ac arolygu (Cyf. 2).
4. Nid yw DSC4 wedi bod mewn defnydd gweithredol ers 2007 (Cyf. 3). Yn ddiweddar mae'r Trwyddedai wedi cadarnhau bod DSC4 yn wag rhag elfennau tanwydd arbelydrol ac wedi datgan ei bod yn rhydd rhag tanwydd (Cyf. 4). Mae hyn yn golygu bod DSC4 yn cynnwys maint bach o ILW yn unig a gododd pan oedd nifer o elfennau tanwydd wedi rhydu oherwydd effaith dŵr (Cyf. 2, 12).
5. Cynhwysir yr ILW o fewn 37 o diwbiau sgip. Mae un tiwb (Sgip 131, tiwb D11) yn cynnwys oddeutu hanner elfen tanwydd, sy'n bresennol fel deunydd wraniwm a chladin. Mae'r deunydd yn y tiwbiau eraill yn weddillion o broses rydu'r cladid Magnox neu eitemau amrywiol, megis y gwifrau thermocwpl (Cyf. 2, 3, 7). Dynodir y gweddillion rhydu hyn fel gwastraff cadwedig, yn hytrach na thanwydd niwclear, gan Euratom (at ddibenion trefniadau diogelu) a derbyniwyd y dynodiad hwn gan ONR (Cyf. 5, 6). Fe wnaeth y broses o dynnu'r elfennau tanwydd wedi'u rhydu greu rhywfaint o ddfwyniant oedd yn cynnwys alffa yn DSC4, gan ei ddynodi fel R4:C4 ar gyfer mynediad personél (Cyf. 10, 11). Mae prosiect Wylfa wrthi i adennill yr ILW hwn a'i dynnu o DSC4 i gael ei storio dros dro dros y 2-3 blynedd nesaf (Cyf. 2, 12, 17).
6. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystyriaeth ONR o gynnig y Trwyddedai i newid Wylfa OR4.5, sydd yn ei le i reoli'n weithredol yr amodau amgylcheddol yn DSC4 i amodau sy'n briodol ar gyfer storio elfennau tanwydd arbelydredig. Cefnogir y cynnig gan gynnig addasu offer Categori 1 (Cyf. 1) – y cyfeirir ato ymhellach fel "yr achos diogelwch" – a chan ddogfennau y cyfeirir atynt.
7. Mae OR4.5 yn gosod amodau a therfynau i sicrhau oeri digonol, i gynnal lleithder o fewn lefel ddiffiniedig, ac i osod rhai amodau a therfynau i'w diwallu ar gyfer trosglwyddo elfennau tanwydd i'r storfa (Atodiad B yng Nghyf.1). Hefyd mae DSC4 yn darparu cyfyngiant sylfaenol, yn cael ei gynnal ar lefel sy'n is na phwysau atmosfferig, â hidlwyr HEPA a gallu monitro ymbelydredd wedi'u hintegreiddio yn y system awyro. Gweithredir amodau a therfynau OR4.5 trwy Gyfarwyddyd Gweithredu'r Orsaf Gyfeirio (RSOI; Atodiad C Cyf.1). Cynhwysir yr offer gofynnol i gynnal yr amodau hyn yn yr atodlen gynnal a chadw niwclear (Atodiad E yng Nghyf. 1).

OFFICIAL

## OFFICIAL

8. Mae'r Trwyddedai'n cynnig newid rheolau gweithredu'r orsaf trwy ddileu OR4.5. Sylfaen y cynnig hwn nad yw'r amodau a therfynau llym a bennir yn OR4.5 yn ofynnol bellach i gynnal diogelwch niwclear gan fod DSC4 yn rhydd rhag tanwydd a'i bod yn cynnwys dim ond maint bach o ILW (Cyf. 1, 2). Mae'r Trwyddedai'n bwriadu gweithredu trefniadau amgen (wedi'u seilio ar gyfarwyddiadau gweithredu'r orsaf (SOI) heb eu cysylltu â Rheol Weithredu yn cyflawni gofynion a bennir yn yr Achos Diogelwch y cyfeirir ato) er mwyn cynnal DSC4 i'r un amodau â'r rhai hynny sydd wedi'u sefydlu ar hyn o bryd, at ddibenion diogelu asedau, ag offer gofynnol yn cael eu cwmpasu gan drefniadau cynnal a chadw rheolaidd.
9. Mae'r Achos Diogelwch yn cyflwyno dadleuon a thystiolaeth y gellir gwneud y newid y gwnaed cais amdano heb niwed i ddiogelwch niwclear a bod y risg o ollyngiad radiolegol o DSC4 yn cael ei lleihau'n ddigonol.

### 3 GWAITH ASESU AC AROLYGU A WNAED GAN ONR TRA'N YSTYRIED Y CAIS HWN

10. Mae ONR wedi cynnal rhaglen o waith sy'n cynnwys asesiad o gyflwyniad y Trwyddedai gan arbenigwyr cemeg, amddiffyniad radiolegol a dadansoddi diffygion (Cyf. 7, 8, 9), ymgysylltu â'r Trwyddedai ac arolygu newidiadau arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â threfniadau'r Trwyddedai a safonau rheoleiddiol a disgwyliadau (Cyf. 10, 11, 12).

#### 3.1 AROLYGIAD

11. Mae trefniadau'r Trwyddedai'n golygu bod angen i Asesiad Diogelwch Niwclear (INSA) gael ei wneud ar gyfer newidiadau i Reolau Gweithredu Cymeradwy a ddilynir gan gyflwyniad i'r Pwyllgor Diogelwch Niwclear (NSC) iddo gael ei gymeradwyo (Cyf. 13).
12. Adolygwyd cofnod yr INSA a mae'n darparu sicrwydd bod y Trwyddedai wedi cydymffurfio â'i drefniadau. Fe wnaeth y swyddog INSA ddarparu cytundeb i'r diwygiadau arfaethedig fel y'i disgrifir yn y cyflwyniad (Cyf.1).
13. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod NSC Magnox Cyf. a gynhaliwyd ar 2/7/15 ac ystyriwyd eu bod yn darparu sicrwydd y bydd her annibynnol bellach i'r cyflwyniad (Cyf. 1). Fe wnaeth yr NSC gynghori'r Cadeirydd i gymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Rheolau Gweithredu.
14. Mae cyflwyniad y Trwyddedai'n gyson â threfniadau'r safle ar gyfer diwygiadau i Reolau Gweithredu (Cyf. 13).
15. Mae'r trwyddedai wedi datgan bod DSC4 yn rhydd rhag tanwydd (Cyf. 4). Adolygwyd y broses i gadarnhau bod DSC4 yn rhydd rhag tanwydd gan ONR, gan gynnwys samplu'r cofnodion cysylltiedig, ac ystyrir ei bod yn gadarn, gan roi sicrwydd nad oes elfennau tanwydd arbelydredig yn dal i fod yn DSC4 (Cyf. 11). Fe wnaeth ONR gadarnhau bod mesurau ffisegol a gweinyddol yn eu lle i atal trosglwyddiadau pellach o danwydd i mewn i DSC4 (Cyf. 10, 14).
16. Mae ONR yn fodlon bod y Trwyddedai wedi cyflawni yn ôl yr ymrwymadau a nodir yn y cyflwyniad (Cyf. 1), gan gynnwys:
  - Cyfarwyddyd Gweithredu'r Orsaf (SOI) i osod amodau a therfynau er mwyn cynnal lleithder a llai o bwysau awyro yn DSC4 at ddibenion diogelu asedau a ddatblygir i ddisodli'r RSOI presennol yn gysylltiedig ag OR4.5 (Cyf. 10, 15).

OFFICIAL



## OFFICIAL

- Cynnwys offer a chyfarpar allweddol yn atodlen gynnal a chadw rheolaidd Wylfa (CyfRef. 1, 10, 11)
- Cynnwys hidlwyr HEPA ar bibellau gwagio DSC4 yn yr Atodlen Gynnal a Chadw Amgylcheddol (Cyf. 1, 10, 11)

### 3.1.1 ASESIAID

17. Ar gyfer yr asesiad hwn, canolbwyntiwyd ymdrech ar asesu'r gofynion ar gyfer dal i storio'r maint yr ILW oedd yn weddill yn ddiogel yn DSC4. Mae'r Achos Diogelwch yn cynnig cynnal DSC4 i'r un lleithder a phwysau wedi'u lleihau, fel o dan OR4.5, trwy SOI.
18. Mae'r asesiad yn ystyried y risg gymharol isel sydd ynghlwm wrth y newid arfaethedig i'r rheol weithredu, ymddygiad a datblygiad cemegol disgwylidig yr ILW o dan yr amodau arfaethedig a'r posibilrwydd y bydd unrhyw ollyngiad radiolegol o DSC4.
19. Ymgymmerir â'r asesiad ONR yn unol â'r gofynion ONR SAPs a TAG perthnasol a mae'n nodi cydymffurfiaid boddhaol rhannau cysylltiedig â chemeg y cyflwyniad â chyfarwyddyd ONR.
20. Fe wnaeth yr arolygydd Arbenigol Cemeg samplu'r Achos Diogelwch a dogfennau cysylltiedig ynghylch nodweddu'r ILW gan gasglu, o safbwynt Cemeg, bod yr honiadau, dadleuon a thystiolaeth a gyflwynwyd yn darparu cefnogaeth ddigonol i'r newidiadau arfaethedig i OR4.5, yn ogystal â chyfiawnhad ALARP rhesymol, cyhyd â bod yr amodau amgylcheddol yn cael eu cynnal fel y'i cynigir (Cyf. 7). Ni wnaeth adolygiadau cryno o gynnyg y Trwyddedai gan arolygwyr Arbenigol ONR ym meysydd dadansddi diffygion a diogelu radiolegol amlygu unrhyw broblemau yn y meysydd arbenigol hyn oedd yn galw am asesiad manwl (Cyf. 8, 9).
21. Nid yw'r asesiadau arbenigol ONR wedi nodi unrhyw broblemau na sylwadau a allai atal y Trwyddedai rhag gweithredu'r newid arfaethedig i Reolau Gweithredu'r orsaf. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi asesu'r cynnyg yn annibynnol ac nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad o'u persbectif hwy. (Cyf. 16).

## 4 MATERION YN CODI O WAITH ONR

22. Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys ar ôl o waith asesu ac arolygu ONR.

## 5 CASGLIADAU

23. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau asesiad ONR o gais Magnox Cyf. am Gymeradwyaeth ar gyfer newid i Reolau Gweithredu gorsaf Wylfa trwy ddileu Rheol Weithredu 4.5 ar gyfer DSC4.
24. I orffen, rwyf yn fodlon ar yr honiadau, dadleuon a thystiolaeth a ddarperir ym mhapur y Pwyllgor Diogelwch Niwclear (NSC) "Cynigion ar gyfer dileu rheol weithredu 4.5, cyfarwyddiadau gweithredu cysylltiedig yr orsaf gyfeirio (RSOIs) a gweithgareddau'r atodlen gynnal a chadw (MS) ar gyfer cell storio sych (SDSC) 4" a thystiolaeth arall a ddarparwyd trwy ymgysylltu â'r Trwyddedai. Ar sail yr asesiad hwn gellir rhoi Cymeradwyaeth ONR i gynnyg y Trwyddedai i ddileu OR4.5, RSOIs a gweithgareddau cynnal a chadw niwclear cysylltiedig, a'u disodli â'r ddogfennaeth a threfniadau a gynigir.

## 6 ARGYMHELLION

25. Mae adroddiad asesiad y prosiect yn argymhell:

OFFICIAL

## OFFICIAL

- Mae'r Arolygydd Goruchwylio ar gyfer is-raglen safleoedd Magnox ac Adfer yn derbyn y dyfarniadau technegol a rheoleiddiol yn yr adroddiad;
- Mae'r Arolygydd Goruchwylio ar gyfer is-raglen safleoedd Magnox ac Adfer yn cymeradwyo'r adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi ar ôl ei olygu fel sy'n briodol; a
- Mae'r Prif Arolygydd Niwclear yn rhoi'r Gymeradwyaeth i ddiwygio Rheolau Gweithredu Gorsaf Wylfa trwy newid Rheol Weithredu 4.5 ac adolygu dogfennaeth gysylltiedig fel a ddangosir.

OFFICIAL

## OFFICIAL

### 7 CYFEIRIADAU

1. Cais am newid i'r rheolau gweithredu o dan amod trwydded 23(5). Cynigion i ddileu rheol weithredu 4.5, cyfarwyddiadau gweithredu'r orsaf gyfeirio cysylltiedig (RSOIs) a gweithgareddau'r atodlen gynnal a chadw (MS) ar gyfer cell storio sych eilaidd (SDSC) 4 (TRIM: 2015/280930).
2. Cell Storio Sych Wylfa 4 (DSC4) Cael gwared ar weddillion rhydu (2015/369520).
3. Canlyniadau arolygiad camera mewnol cell storio sych 4 (WYA/REP/9770; 24/10/13) (TRIM: 2015/360162).
4. Llythyr gan Wylfa'n hysbysu ONR bod y chwech elfen danwydd arbelydredig olaf o gell storio sych eilaidd 4 wedi'u tynnu i ffwrdd, 2 Medi 2015 (TRIM: 2015/331277).
5. Cadarnhad Euratom i Wylfa bod y gweddillion yn sgip 131 tiwb D11, yn wastraff wedi'i gadw (TRIM: 2015/422609).
6. Cadarnhad gan Fesurau Diogelu ONR bod y gweddillion yn sgip 131 tiwb D11 yn wastraff wedi'i gadw (2014/214058; 2015/397937).
7. Aseiad Cemeg o effaith y cynnig i dynnu Rheol Weithredu 4.5 yn ôl ar gyfer cell storio sych eilaidd 4 (TRIM: 2015/454086).
8. Sylwadau Arbenigol ONR ar agweddau astudiaethau diffygion cynnig Wylfa i ddileu rheol weithredu 4.5 (TRIM: 2015/361362).
9. Sylwadau Arbenigol ONR ar agweddau Diogelu Radiolegol cynnig Wylfa i ddileu rheol weithredu 4.5 (TRIM: 2015/352473).
10. Ymateb Wylfa i gwestiynau ONR ar ddileu rheol weithredu DSC4 4.5, 14 Hydref 2015 (TRIM: 2015/383878)
11. Ymyrraeth Gynllunedig Seiliedig ar Systemau, gan gynnwys cyfarfod cyswllt ar DSC4 (ONR-DFW-IR-15-085), 23-24 Medi 2015 (TRIM: 2015/371035).
12. Ymyrraeth Gynllunedig (ONR-DFW-IR-15-099), cyfarfod ar DSC4, 22 Hydref 2015 (TRIM: 2015/403060).
13. Magnox Cyf., Wylfa –Gweithdrefn Reoli Rhif 021 Rhan 012, WYA/MCP/021/012 Rhifyn 26. Rheoli diwygiad i neu atal dros dro rheolau gweithredu, RSOIs, diwygio cyfarwyddiadau gweithredu a chyfarwyddiadau arbennig dros dro (TRIM: 2015/156763).
14. SOI D1 Atodiad E (yn gwahardd trosglwyddo elfennau tanwydd arbelydredig pellach i DSC4) (TRIM: 2015/397870).
15. SOI ar gyfer DSC4 i'w weithredu wedi dileu rheol weithredu 4.5 (TRIM: 2015/421701).
16. Llythyr gan Asiantaeth yr Amgylchedd ( ) yn dangos nad oedd gwrthwynebiad i ddileu rheol weithredu 4.5 ar gyfer DSC4 (TRIM: 2015/410971).
17. Llythyr gan Wylfa'n ceisio derbyniad ONR ar gyfer caead LC35 carreg filltir LC35.01 a hysbysiad o greu dwy garreg filltir LC35 newydd (35.08 a 35.09) ar gyfer adennill yr ILW sy'n weddill yn DSC4 (TRIM: 2015/405454).

OFFICIAL